

# Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi

25 Ionawr 2019, Stadiwm Swalec,  
Cofnodion

Yn bresennol: David Notley (DN) (cydgadeirydd)  
Kellie Beirne (KB) (cydgadeirydd)  
Sue Bale (SB)  
Steve Smith (SS)  
Helen Swygart (HS)  
Ian Brotherston (IB)  
Kirsten Bound (KBo) dros y ffôn

Ymddiheuriadau: Andy Middleton (AM)  
Rhys Thomas (RT)

Ysgrifenyddiaeth: Alastair Davies (AD)  
Philippa Costello (PC)

Siaradwyr Gwadd: Mark Lewis (ML) (LIC)  
Denise Powell (DP) (IQE)

Eitem agenda		Cam Gweithredu
1	<p><b>Croeso</b></p> <p>Croesawodd DN aelodau'r cyngor i 17<sup>eg</sup> cyfarfod Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi (CCCA).</p> <p>Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, cytunwyd arnynt a'u cymeradwyo.</p> <p>Gofynnwyd i'r aelodau presennol nodi a oedd ganddynt achosion uniongyrchol neu anuniongyrchol o wrthdaro rhwng buddiannau yn yr eitemau arfaethedig ar yr agenda. Ni chofnodwyd unrhyw fuddiannau newydd.</p>	
2	<p><b>Rhagfynegiadau Nesta 2019</b></p> <p>Tynnodd KBo sylw at restr Nesta a gyhoeddwyd yn ddiweddar o'r deg rhagfynegiad ar gyfer 2019 sy'n canolbwyntio ar dueddiadau a datblygiadau technolegol:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Mae ras drwy'r byd i gyd i ddatblygu "Ymennydd mewn Dinasoedd" - integreiddio deallusrwydd artifffisial yn ein bywydau bob dydd;</li><li>2. Bydd cyfreithwyr robotig yn golygu bod gwasanaethau cyfreithiol yn rhad ac yn syml – awtomatiaeth yn y sector cyfreithiol, gydag apiau a gwasanaethau ar y we yn lle mynd at gwmni cyfreithwyr;</li><li>3. Ffordd ar hap o arloesi – cyllid i waith ymchwil wedi'i ddyrannu a'i ddsbarthu ar hap;</li><li>4. MOT i'ch perfedd – gweld beth sy'n byw yn eich perfedd;</li></ol>	

	<ol style="list-style-type: none"> <li>5. Mae'r chwyldro symudedd yn cyflymu – datblygiad technolegau cynorthwyol;</li> <li>6. Fideos 'ffug-fanwl' yn arf – mae technoleg deallusrwydd artiffisial newydd yn ei gwneud yn bosib creu fideos ffug o unigolion lle nad oes modd dweud y gwahaniaeth bron oddi wrth y gwrthrych go iawn;</li> <li>7. Gyda phwy rydych chi'n meddwl rydych chi'n siarad? - eich hawl i wybod a ydych chi'n siarad gyda pherson o gig a gwaed neu robot. "Hawl y dinesydd i wybod" fydd "dyletswydd y sefydliad i roi gwybod";</li> <li>8. Dechrau'r diwedd i arholiadau – gallai deallusrwydd artiffisial ddechrau asesu myfyrwyr drwy'r amser, gan olygu na fydd angen cymaint o arholiadau;</li> <li>9. Byw gyda'r arch-fyg – adnabod rhywun sy'n byw â haint sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfotigau, a bod hyn yn arwain at ansawdd bywyd gwael ac yn effeithio ar gymunedau a systemau gofal iechyd;</li> <li>10. Dyma ddiwedd yr wythnos fel rydym ni'n ei hadnabod – yn 2019, byddwn yn cefnu o'r diwedd ar y syniad o "wythnos waith", ac yn cychwyn ail-ddehongli gwaith a chymdeithas sy'n cyfateb i'n patrymau bywyd a realaeth.</li> </ol>	
<p><b>3</b></p>	<p><b>Cyngor Cyngorol Cymru ar Arloesi yn y dyfodol</b></p> <p>Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar gylch gwaith a diben y Cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf, a sut mae'n bwriadu dwyn effaith ac ychwanegu gwerth.</p> <p>Rhoddodd DN ddiweddariad i'r Cyngor am ei gyfarfod diweddar yn y Senedd lle bu'n cyflwyno tystiolaeth ar yr ymchwiliad Ymchwil ac Arloesi i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael yn <a href="http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5149">http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5149</a>. Bydd y pwyllgor yn llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau cyn bo hir.</p> <p>PC i ddsbarthu ymgynghoriad Fframwaith Cyfnewid Gwybodaeth Research England, sy'n gofyn am ymatebion i ddatblygu fframwaith cyfnewid gwybodaeth. Mae'r ymgynghoriad yn mynd tan 14 Mawrth. Os bydd aelodau am ymateb, dilynwch y ddolen - <a href="https://re.ukri.org/news-events-publications/news/re-launches-kef-consultation/">https://re.ukri.org/news-events-publications/news/re-launches-kef-consultation/</a></p> <p>Cafwyd trafodaeth ar aelodaeth a chytunwyd bod angen aelodau newydd ychwanegol. Cytunodd y Cyngor i DN a KB gysylltu ag aelodau newydd posib a gofyn iddynt ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor, os yw'n bosib.</p> <p>PC i drefnu dyddiadau bob 6-8 wythnos am weddill y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd posib y Cyngor. Mae bob amser yn haws canslo cyfarfod na threfnu cyfarfod ar fyr-rybudd. Mae modd defnyddio dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd is-grwpiau a chyfarfodydd chwarterol y Cyngor.</p>	<p><b>PC</b></p> <p><b>PC</b></p>

	<p>Rhoddodd KB ddiweddariad i'r Cyngor am gyfarfod diweddaraf Cyngor Ymgynghorol Gwyddoniaeth ac Arloesi Cymru, a gadeiriwyd gan Syr John O'Reilly. Cafodd KB ei phenodi'n ddiweddar i fod ar y Cyngor. Mae aelodaeth o Gyngor Ymgynghorol Gwyddoniaeth ac Arloesi Cymru yn golygu cynrychiolaeth o fwrdd UKRI. Cytunwyd y dylai aelod o fwrdd UKRI ddod i gyfarfod Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi i roi diweddariad am UKRI. Dywedodd Cyngor Ymgynghorol Gwyddoniaeth ac Arloesi Cymru mai cryfderau cystadleuol Cymru yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwil canser a'r GIG;</li> <li>• Diogelwch a gwydnwch y system fwyd ac agri-dechnoleg;</li> <li>• Caffael cyhoeddus;</li> <li>• Technoleg reoleiddiol wedi'i chysylltu â deallusrwydd artifisial a data;</li> <li>• Niwclear;</li> <li>• Amddiffyn a seiber.</li> </ul> <p>A ddylai Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi a Chyngor Ymgynghorol Gwyddoniaeth ac Arloesi Cymru fynd ati gyda'i gilydd i sefydlu rhai meysydd gwaith y gellir eu datblygu ar y cyd?</p> <p>DN i ddrafftio papur dewisiadau ar is-grwpiau a beth ddylai'r rhain fod. Dyma'r awgrymiadau posib:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhyngwladol a Chydweithio;</li> <li>• Data – sganio'r gorwel; tueddiadau/rhagolygon;</li> <li>• Heriau/caffael gwasanaeth cyhoeddus.</li> </ul> <p>Is-grwpiau i gael eu sefydlu, a bydd gofyniad i aelodau gwrdd rhwng cyfarfodydd rheolaidd Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi.</p>	<p><b>DN</b></p> <p><b>Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi</b></p>
<p><b>4</b></p>	<p><b>Gweledigaeth i Gyd-arloesi</b></p> <p>Rhoddodd ML a DP ddiweddariad i'r Cyngor am y digwyddiad Cyd-arloesi sydd ar y gweill. Mae'r digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar ddod â phobl a sefydliadau ynghyd i drafod cyfleoedd a galluogrwydd.</p> <p>Bydd sawl gweithdy'n cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn a fydd yn sail i'r prif ddigwyddiad. Caiff y gweithdy cyntaf ei gynnal ddechrau mis Mawrth, ac fe fydd yn weithdy cwmpasu manwl ar gyfer arweinyddion Ymchwil a Datblygu ac arweinyddion arloesi. Bydd yn canolbwyntio ar themâu technoleg ddatblygol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Synhwyro, mesur ac archwilio;</li> <li>• Cyfathrebu;</li> <li>• Gosod, llywio ac amseru;</li> <li>• Rheoli pŵer ac ynni;</li> <li>• Gweithgynhyrchu uwch a deunyddiau.</li> </ul> <p>Gwahoddir y diwydiant a'r byd academiaidd i'r ail weithdy ym mis Mehefin i edrych yn fanylach ar yr heriau. Bydd cyllid drwy</p>	

	<p>Smart Cymru ar gael i bartneriaid prosiect i ddatblygu astudiaethau dichonolrwydd lle bydd mwy nag un sefydliad yn rhan.</p> <p>Caiff y brif gynhadledd ei chynnal ym mis Rhagfyr, gyda'r nod o rannu syniadau a gwybodaeth. Bydd gallu ychwanegol ar gael yn y gynhadledd i unrhyw brosiectau posib sy'n cael eu datblygu.</p> <p>PC i ddarparu manylion cyswllt SB i ML a DP ynghylch plattform her Healthtec Partneriaeth Gwyddor Iechyd Academaidd Deddwyrain Cymru (SEWAHSP).</p> <p>PC i ddsbarthu sleidiau.</p> <p>Y cyngor i anfon unrhyw syniadau ac awgrymiadau at ML a DP.</p>	<p>PC</p> <p>PC</p> <p><b>Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi</b></p>
<p><b>5</b></p>	<p><b>Y diweddaraaf am IUK</b></p> <p>Rhoddodd IB ddiweddariad i'r Cyngor am themâu Wave 3 Cronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol (ISCF) sydd wedi'u cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyfodol hedfan – trydaneiddio hedfan;</li> <li>• Sbarduno'r chwyldro trydan – hwb pŵer mawr;</li> <li>• Gwneud technoleg cwantwm yn fasnachol;</li> <li>• Datgarboneiddio diwydiannol – datgarboneiddio llygrwyr mawr diwydiannol;</li> <li>• Trawsnewid y Diwydiant Sylfaen – dur, sment, gwydr, cerameg – a'u gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni;</li> <li>• Pecynnu plastig cynaliadwy clyfar;</li> <li>• Gweithgynhyrchu mwy clyfar – gweithgynhyrchu digidol;</li> <li>• Cyflymu'r broses o ganfod afiechydon;</li> <li>• Diogelwch digidol drwy ddylunio – newidiadau sylfaenol i sglodion.</li> </ul> <p>Mae rhai o'r uchod wedi cael eu cyhoeddi fel rhan o gynlluniau sector, ond nid ydynt ar agor nac yn gystadleuol nes tymor yr haf/hydref.</p> <p>Nid yw'r rhestr fer ar gyfer Strength in Places wedi'i chwblhau na'i chyhoeddi. Rhagwelir 2<sup>il</sup> don.</p> <p>Mae gan IUK ddatganiad o weledigaeth a nod newydd a ddaw i rym o fis Ebrill ymlaen. Bydd IUK yn rhoi pwys ar arloesi <b>dan arweiniad busnesau</b> a bydd yn cynnwys ac yn cydnabod manteision arloesi i gymdeithas.</p> <p>Un o'r pethau a gynigir i fod yn lle Cronfeydd Strwythurol yr UE yw Cronfa Ffyniant i Bawb y DU, a fydd yn adlewyrchu heriau mawr y Strategaeth Ddiwydiannol. Mae angen cytuno ynghylch hyn yn gyntaf.</p>	
<p><b>6</b></p>	<p><b>Buddsoddiad Arloesol yn y Fargen Ddinesig</b></p>	

	<p>Rhoddodd KB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am waith Partneriaeth Twf Economaidd, a thynnodd sylw at bwysigrwydd y rhanbarth. Mae Prifysgol Caerdydd a Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad o'r sector yn ddiweddar, gan nodi'r sectorau lle mae gan Gymru gryfderau yn y rhanbarth, a lle mae angen i'r lleoliad fod yn allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgynhyrchu Uwch;</li> <li>• Technoleg ariannol;</li> <li>• Ynni a'r amgylchedd</li> <li>• Seiber ac amddiffyn;</li> <li>• Gwyddor bywyd;</li> <li>• Digidol.</li> </ul> <p>Mae KB wedi sefydlu Fframwaith Buddsoddi lle mae'r Gronfa Buddsoddiadau gwerth £500m wedi cael ei rhannu 3 ffordd, gyda'r mwyafrif yn mynd i'r Gronfa Buddsoddiadau Arloesol.</p> <p>Mae Swyddfa newydd y Fargen Ddinesig wrthi'n cael ei datblygu, ac wedi symud i adeiladau newydd. Bydd y swyddfa'n recriwtio cyn bo hir.</p>	
<p><b>7</b></p>	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>KB a DN i gwrdd â'r Gweinidog Addysg ar 19 Mawrth 2019.</p> <p>Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal 22 Mawrth 2019, lleoliad i'w gadarnhau, a bydd cyfarfod bob 6-8 wythnos ar ôl hynny.</p>	